Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS)

## Ffurflen Mynegi Diddordeb (EOI)

## Canllaw Sut i Lenwi

# Ffurflen Mynegi Diddordeb Cynllun Cynllunio Creu Coetir

# Canllaw Sut i Lenwi

**Pwysig:**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl, gam wrth gam ynghylch sut i lenwi'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllaw yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gopi o'r canllaw hwn yn yr iaith arall, gallwch fynd ati o llyw.cymru trwy glicio ar y dewisydd iaith ar dop y dudalen ac ailagor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

©Hawlfraint y Goron 2023 ISBN 978-1-80391-744-3

## TUDALEN GYNNWYS


**ADRAN 1 - DECHRAU ARNI .......... 4**

Hafan RPW Ar-lein .......... 4

Mynegi Diddordeb ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir .......... 5

**ADRAN 2 – PA SGRINIAU WELA' I A BETH MAEN NHW'N WNEUD? .......... 6**

Golwg gyffredinol ar y botymau rheoli .......... 6

Dechrau ar y Cais .......... 7

Cyflwyniad i'r Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir .......... 8

Hysbysiad preifatwydd .......... 9

Manylion Cyn-ymgeisio ac Arolygon .......... 10

Rhestr Caeau .......... 11

Chwilio am Gaeau .......... 11

**ADRAN 3 – DEWIS CAEAU AR GYFER FY FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB .......... 13**

Ymgeisio i Cynllun Cynllunio Creu Coetir .......... 14

Sut mae ychwanegu rhagor o gaeau i'm ffurflen Mynegi Diddordeb? .......... 15

Sut mae dileu caeau sydd wedi'u hychwanegu at fy Ffurflen Mynegi Diddordeb? .......... 16

**ADRAN 4 – CYFLWYNO'CH FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB Y CYNLLUN CYNLLUNIO CREU COETIR .......... 17**

Datganiadau ac Ymrwymiadau .......... 18

Tudalen Gyflwyno .......... 19

**ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN YN LWYDDIANNUS .......... 20**

Tystiolaeth Ddogfennol .......... 20


Tynnu'ch Cais yn ôl .......... 20

Newid ac Ychwanegu .......... 21

## ADRAN 1 - DECHRAU ARNI

### Hafan RPW Ar-lein

Logiwch i mewn i'ch Cyfrif RPW Ar-lein - nodwch eich ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein. Bydd y dudalen hon yn dangos gwybodaeth a negeseuon yr ydych wedi'u derbyn neu eu hanfon, a byddwch yn gallu dechrau llenwi a chyflwyno unrhyw geisiadau sydd ar gael.

## Mynegi Diddordeb ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir

I ddechrau ar eich Ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir, cliciwch ar y ddolen berthnasol dan 'Dechrau Ceisiadau a Hawliadau' fel y gwelir isod:



## ADRAN 2 – PA SGRINIAU WELA’ I A BETH MAEN NHW’N WNEUD?


### Golwg gyffredinol ar y botymau rheoli

Dyma olwg gyffredinol ar y botymau rheoli sy'n ymddangos ar bob tudalen. Bydd angen i chi eu defnyddio er mwyn llenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir:

| | |
|---|---|
| Cymraeg English | Ar ochr chwith y dudalen lle bo'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi newid iaith eich Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. |
| Cuddio Help | Ar frig y dudalen ar yr ochr dde lle bo'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn dangos/cuddio awgrymiadau ar y sgrin i'ch helpu i lenwi'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. |
| ‹ Yn ôl  Nesaf › | Ar frig a gwaelod bob tudalen lle bo'n berthnasol. Bydd y botymau hyn yn caniatáu i chi symud ymlaen ac yn ôl rhwng tudalennau'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. |
| Printio | Ar waelod pob tudalen lle bo'n berthnasol. Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi Argraffu ciplun o'ch Ffurflen fel y mae. **Pwysig**: Ni fyddwn yn derbyn copïau wedi'u hargraffu o'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. |
| Gweld Map | Ar waelod pob tudalen lle bo'n berthnasol. Cliciwch y botwm hwn i agor map rhyngweithiol o'r caeau rydych wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. |
| Safio | Ar waelod pob tudalen lle bo'n berthnasol. Cliciwch ar y botwm hwn i arbed unrhyw newidiadau. Gallwch hefyd glicio'r botwm hwn i gadarnhau bod y newidiadau yn dderbyniol. |
| ✖ Gadael | Ar waelod pob tudalen lle bo'n berthnasol. Cliciwch i adael eich Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Mae'r newidiadau yn cael eu harbed yn awtomatig. |
| ✔ ✖ ℹ<br><br>✔<br><br>✖<br><br>ℹ | Mae'r arwyddion hyn yn ymddangos wrth ochr pob adran o'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir, ar ochr chwith y dudalen.<br><br>Mae'r tic gwyrdd yn ymddangos os ydy’r wybodaeth mewn adran yn dderbyniol.<br><br>Mae'r groes goch yn ymddangos os oes adran/tudalen heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro camgymeriad.<br><br>Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn ymddangos os oes neges gwybodaeth wedi’i chreu gan fod newid wedi’i wneud i’r ffurflen. |

## Dechrau ar y Cais

Ar ôl dewis dolen 'Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir' byddwch yn gweld y dudalen ganlynol.





Cyn cychwyn, cadarnhewch fod y manylion sy'n ymddangos yn gywir. Os oes angen, gallwch wneud newidiadau drwy glicio ar y ddolen 'Manylion y Cwsmer' neu 'Dewisiadau Ar-lein'.

Os yw'r manylion sy'n cael eu dangos yn gywir, dewiswch y botwm 'Dechrau'. Bydd hyn yn eich arwain at y sgrin Cyflwyniad i'r Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

## Cyflwyniad i'r Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig am Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu darllen yn drylwyr cyn dechrau.


Mae hefyd yn rhoi dolen i fynd at Lyfryn Rheolau y Cynllun Cynllunio Creu Coetir ar wefan Llywodraeth Cymru.




Ar ôl i chi ddarllen a deall Llyfryn Rheolau y Cynllun Cynllunio Creu Coetir a'r Prif Negeseuon cliciwch ar 'Nesaf' i symud ymlaen at sgrin nesaf y Ffurflen Mynegi Diddordeb hon.

## Hysbysiad preifatwydd

Y dudalen Hysbysiad preifatrwydd yw’r lle yr ydym yn gosod allan eich hawliau a be efallai y byddem angen ei wneud gydag eich gwybodaeth er mwyn prosesu eich cais. Mae’n rhaid i chi ddarllen yr Hysbysiad preifatrwydd.



Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Hysbysiad preifatrwydd

Yn ôl | Safio | Nesaf

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad preifatrwydd
- Manylion Cyn-ymgeisio ac Arolygon
- Rhestr Caeau
- Cyflwyno

Printio | English

**Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru**
Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiol gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod â darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod â darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Er mwyn asesu cymhwysedd efallai y bydd angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais gydag awdurdodau Rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.


Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Cymorth Gwledig. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA yn: cap-payments.defra.gov.uk


Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phob taliad wedi'i wneud.

## Manylion Cyn-ymgeisio ac Arolygon

Yma y byddwch yn nodi manylion o’r drafodaeth cyn-ymgeisio orfodol sydd rhaid ymgymryd gyda CNC.




Nodwch eich cyfeirnod cyn-ymgeisio a dyddiad a gychwynnwyd eich trafodaethau cyn-ymgeisio gyda CNC. Y bydd angen i chi hefyd nodi unrhyw arolygon wedi ei chyflawni a chafodd eu gofyn amdanynt gen CNC yn ystod y drafodaeth cyn-ymgeisio.





**Pwysig**: Ni chewch gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb Cynllun Cynllunio Creu Coetir nes eich bod wedi ymgymryd y drafodaeth cyn-ymgeisio orfodol a chwblhau'r holl arolygon a ofynnwyd amdanynt.

## Rhestr Caeau


Y sgrin hon fydd sylfaen eich Mynegiant o Ddiddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Bydd pob cae y mae gan Lywodraeth Cymru fanylion amdano adeg llenwi'r ffurflen yn cael ei ddangos ar y sgrin ar gyfer eich CRN.

Fe welwch isod yr opsiynau sydd ar gael ar dudalen y Rhestr Caeau:




## Chwilio am Gaeau

Mae'r botwm hwn yn eich galluogi i chwilio am gaeau unigol yn eich ffurflen. Gallwch chwilio yn ôl rhif y cae neu enw'r cae (os ydych wedi nodi hwnnw).




Os oes cofnod yn cyfateb i'r manylion rydych wedi'u nodi, mae'r cae yn cael ei uwcholeuo fel y gwelir isod, neu gallwch barhau i chwilio drwy glicio ar y botwm 'Canfod y Nesaf':



## ADRAN 3 – DEWIS CAEAU AR GYFER FY FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB

Cyfeirnod y Ddalen
Dyma Gyfeirnod y Ddalen ar Fap Arolwg Ordnans.

Rhif y Cae
Dyma'r Cyfeirnod Grid Cenedlaethol

Maint y Cae (Ha)
Dyma arwynebedd y cae fel y mae Llywodraeth Cymru wedi'i nodi. Bydd maint y cae'r un fath â'r hyn a gyflwynoch ar eich SAF blynyddol.

Arwynebedd Coetir yr NFI (Ha)
Dyma arwynebedd y coetir a gofnodwyd ar gyfer y cae gan y Comisiwn Coedwigaeth, dan y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (NFI).

Ymgeisio i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir
Mae'n rhaid rhoi tic yn y blwch hwn wrth bob cae yr ydych am ei gynnwys ar eich Ffurflen Mynegi Diddordeb Cynllun Cynllunio Creu Coetir.


Deiliadaeth
Mae'r blwch hwn yn dangos pa fath o ddeiliadaeth sydd gennych ar y cae, er enghraifft ai chi yw perchennog y cae, ai chi yw'r tenant, neu ydych chi wedi gosod y cae allan ar rent? Ceir rhestr lawn o godau Deiliadaeth ar y dudalen nesaf.

Dyddiad dechrau'r denantiaeth
Os yw'r cae yn destun cytundeb tenantiaeth, dyma ddyddiad dechrau'r denantiaeth sydd gan Lywodraeth Cymru.


Dyddiad ola'r denantiaeth
Os yw'r cae yn destun cytundeb tenantiaeth, dyma ddyddiad ola'r denantiaeth sydd gan Lywodraeth Cymru.

## Ymgeisio i Cynllun Cynllunio Creu Coetir


Bydd yn rhaid i chi ddangos pob cae rydych am ei gynnwys yn eich Ffurflen Mynegi Diddordeb drwy roi tic yn y blwch 'Ymgeisioam Beilot Cynllun Cynllunio Creu Coetir'.




Wedi dewis cae, bydd gofyn ichi nodi faint ohono y byddwch am blannu coed arno. Cliciwch 'Iawn' wedi ichi wneud.





Bydd yr 'Arwynebedd i'w creu (Ha)' ar gyfer pob cae yn cael ei ddangos ar restr y Prif Gaeau, fel yr isod.  Mae botwm 'Golygu' ichi allu newid yr arwynebedd os oes angen.




## Sut mae ychwanegu rhagor o gaeau i'm ffurflen Mynegi Diddordeb?

Os hoffech ychwanegu rhagor o gaeau, dewiswch 


Ar ôl clicio ar y botwm hwn, bydd cofnod gwag yn ymddangos ar ddiwedd y Rhestr Caeau.




Rhaid i chi nodi Cyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae, Maint y Cae (Ha), Arwynebedd Coetir yr NFI a gwybodaeth ynghylch Deiliadaeth ar gyfer pob cae sy'n cael ei ychwanegu. Bydd gofyn ichi hefyd nodi faint o goetir y byddwch yn ei blannu trwy glicio ar y botwm Golygu. Er enghraifft:








Mae'r Codau Deiliadaeth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **A** | Tenantiaeth Amaethyddol Lawn |
| **B** | Tenantiaeth Busnes Fferm |
| **C** | Tenantiaeth Lafar |
| **F** | Yn eiddo i chi ond yn ei rentu allan |
| **G** | Trwydded Bori |
| **O** | Yn eiddo i chi |

Cofiwch fod rhaid llenwi blychau Dyddiad Dechrau'r Denantiaeth a Dyddiad Ola'r Denantiaeth pan fyddwch yn nodi cod Deiliadaeth A, B neu C yn y blwch Deiliadaeth.

**Sut mae dileu caeau sydd wedi'u hychwanegu at fy Ffurflen Mynegi Diddordeb?**

Os am ddileu cae sydd wedi'i ychwanegu at eich Ffurflen Mynegi Diddordeb, cliciwch Dilëwch





Bydd hyn yn troi'r cae yn llwyd ac yn ei dynnu o'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb. Os ydych yn gwneud camgymeriad, gallwch ei ddadwneud drwy glicio i ddadwneud y dileu, a bydd y cae sydd wedi'i ddileu yn ôl ar eich ffurflen eto.



# ADRAN 4 – CYFLWYNO'CH FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB Y CYNLLUN CYNLLUNIO CREU COETIR

Ar ôl dewis caeau i'w rhoi yn y cynllun, a/neu ychwanegu caeau eraill, cliciwch ar 'Nesaf' i symud ymlaen i'r adran Gyflwyno.

Y dudalen gyntaf yw'r dudalen Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb, sy'n cynnwys yr holl fanylion a ddarparwyd gennych ar eich ffurflen.





Bydd unrhyw broblemau sydd wedi dod i'r amlwg gyda'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn ymddangos yn y blwch 'Camgymeriadau a Gwybodaeth' ar frig y sgrin. Gallwch ddychwelyd at dudalennau blaenorol ar eich ffurflen i wirio a chywiro problemau drwy wasgu'r botwm 'Yn ôl' neu ddewis y dudalen briodol ar ochr chwith y sgrin. Bydd arwydd yn ymddangos wrth ochr bob tudalen sydd â phroblem:

| | |
|---|---|
|  | Mae'r groes goch yn ymddangos pan fydd adran/tudalen heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro camgymeriad. **Ni fyddwch yn medru cyflwyno'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb os oes croes goch wrthi.** Bydd yn rhaid i chi ddatrys y broblem gyntaf. |
|  | Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn dangos bod neges wybodaeth wedi'i chreu. Mae'r negeseuon hyn yn eich rhybuddio am broblem bosibl, ond gallwch gyflwyno'ch Ffurflen hyd yn oed os oes eicon glas wrthi. |

## Datganiadau ac Ymrwymiadau


**Gofalwch eich bod wedi darllen y datganiadau a'r ymrwymiadau'n fanwl a'ch bod yn eu deall, cyn cyflwyno'ch ffurflen Mynegi Diddordeb.**





Pan fyddwch wedi darllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau, bydd angen i chi roi tic yn y blwch 'Rwyf wedi darllen y Datganiad a'r Ymrwymiadau uchod ac yn cytuno â nhw'. Pan fyddwch wedi gwneud hynny, dewiswch 'Nesaf' i symud i'r dudalen Gyflwyno.

## Tudalen Gyflwyno

Cliciwch i gyflwyno'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb.




Ar ôl ei chyflwyno'n llwyddiannus, fe welwch y neges hon:



## ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN YN LWYDDIANNUS

Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cael ei ychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl ”Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru”. Gofalwch bod yn gwirio'r wybodaeth arno’n drylwyr. Os oes gwybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r Neges yn esbonio beth sy’n bod. Gwnewch hyn cyn gynted ag y medrwch ar ôl gweld yr wybodaeth anghywir.

### Tystiolaeth Ddogfennol

Os hoffech gyflwyno’ch tystiolaeth ddogfennol ar-lein, defnyddiwch y dudalen 'Negeseuon' gan sicrhau eich bod yn teipio "Tystiolaeth Ddogfennol Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir” ym mlwch ‘testun’ eich Neges. Atodwch yr holl ddogfennau i'r un neges er mwyn inni allu delio â’r cyfan dan un cyfeirnod .

Ceir canllawiau ynghylch defnyddio'r dudalen 'Negeseuon’ ar llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen 'Sut i ddefnyddio RPW Ar-lein' o'r ddewislen ar yr ochr dde.
- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid', 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol yn gweithio ar ran Cwsmeriaid', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.

### Tynnu'ch Cais yn ôl

Os am dynnu'ch ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn ôl wedi i chi ei chyflwyno ar-lein, ewch at eich tudalen 'Negeseuon'. Dewiswch y neges a gawsoch pan gyflwynoch chi’ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Nodwch ar y neges hon eich bod am dynnu'ch Ffurflen yn ôl (gan atodi unrhyw wybodaeth berthnasol), er mwyn inni allu delio â’r cyfan dan un Cyfeirnod.

Am gyngor ar sut i ddefnyddio’r dudalen 'Negeseuon’, ewch i llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen 'Sut i ddefnyddio RPW Ar-lein' o'r ddewislen ar yr ochr dde.
- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid', 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol yn gweithio ar ran Cwsmeriaid', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau gam wrth gam.

**Newid ac Ychwanegu**

Ar ôl i chi gyflwyno'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir, fe welwch efallai fod angen newid neu ychwanegu manylion. Defnyddiwch y dudalen 'Negeseuon' a’r neges a gawsoch pan gyflwynoch chi’ch Ffurflen Mynegi Diddordeb. Yna atodwch fanylion eich newid a/neu ddogfennau ychwanegol (os yn berthnasol) i'r un neges hon, er mwyn inni allu delio â’r cyfan dan yr un Cyfeirnod.

Am gyngor ar sut i ddefnyddio’r dudalen 'Negeseuon’, ewch i llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen 'Sut i ddefnyddio RPW Ar-lein' o'r ddewislen ar yr ochr dde.
- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid', 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol yn gweithio ar ran Cwsmeriaid', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.